## Hysbysiad Preifatrwydd Dysgwyr

### 1. Cyflwyniad

Mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol ar gyfer pobl sy'n cael gwasanaethau gan Novus Cambria.

Mae fersiwn cryno o'r polisi hwn ar gael ar gais gan staff Novus Cambria, neu ar www.novuscambria.ac.uk/data-protection

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

### 2. Beth yw pwrpas y ddogfen hon?

Mae Novus Cambria yn rhan o'r Grŵp LTE. Rydym wedi ymrwymo i warchod preifatrwydd a diogelwch gwybodaeth bersonol. Mae'r hysbysiad hwn yn disgrifio'r ffordd y byddwn yn casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol yn unol â chyfreithiau diogelu data.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r ddogfen hon neu eich data personol, gallwch chi neu eich cynrychiolydd gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data, neu gallwch holi unrhyw un o staff Novus Cambria i wneud hyn ar eich rhan:

• Grŵp LTE, Whitworth House, Ashton Old Road, Manceinion M11 2WH • Neu mae'n bosib i chi neu eich cynrychiolydd i gysylltu â ni ar y cyfeiriad e-bost canlynol: dpo@ltegroup.co.uk

### 3. Y math o wybodaeth rydym yn ei gadw amdanoch chi

Ystyr data personol, neu wybodaeth bersonol, yw unrhyw wybodaeth sy'n datgelu pwy yw unigolyn neu unigolion. Nid yw'n cynnwys data lle mae'r hunaniaeth wedi'i dynnu (data dienw). Mae categorïau arbennig o ddata personol mwy sensitif hefyd sy'n gofyn am lefel uwch o ddiogelwch.

Gall y categorïau o wybodaeth bersonol y byddwn o bosib yn ei gasglu, cadw a'i ddefnyddio amdanoch gynnwys y canlynol:

| | Dysgwyr | Rhiant/ gwarcheidwad |
|---|---|---|
| **Oedran** | ✓ | |
| **Data meddalwedd monitro ystafell ddosbarth** | ✓ | |
| **Gwybodaeth am y gwyn** | ✓ | ✓ |
| **Gwybodaeth/hanes am gyflogaeth/addysg** (lle bo'n briodol) | ✓ | |
| **Ethnigrwydd/cenedligrwydd*** | ✓ | |
| **Rhywedd** | ✓ | |
| **Iechyd, gan gynnwys unrhyw gyflyrau meddygol, anafiadau neu anhawster dysgu a statws anabledd*** | ✓ | |
| **Gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt** | ✓ | ✓ |
| **Llun i'w ddefnyddio ar gyfer arholiadau,** e.e. cerdyn CSCS (lle bo'n briodol) | ✓ | |
| **Ffotograffiaeth a fideo ohonoch chi/eich gwaith** | ✓ | |
| **Gwybodaeth rheoli carchardai a rhif carchar** | ✓ | |

## 4. Sut fyddwn ni'n casglu eich gwybodaeth bersonol?

Fel arfer rydym yn casglu gwybodaeth bersonol trwy'r wybodaeth rydych chi'n ei ddarparu i ni yn ystod y broses ymsefydlu neu gyflwyno ar gyfer y gwasanaeth yr ydych yn ei dderbyn. Efallai y byddwn yn casglu rhagor o wybodaeth yn ystod eich cyfnod gyda Novus Cambria.

## 5. Sut byddwn yn defnyddio'r wybodaeth amdanoch chi?

Yn gyffredinol byddwn yn defnyddio eich data personol er mwyn eich darparu â gwasanaethau Novus Cambria. Isod rydym wedi nodi'r prif ddibenion ar gyfer prosesu.

| Diben | Sail Gyfreithlon |
|---|---|
| **Gadael i chi ddefnyddio gwasanaethau Novus Cambria** | • Perfformio tasg (addysg) er budd y cyhoedd<br>• Mae rhwymedigaeth gyfreithiol a chytundebol arnom • Mae gennym ddiddordeb cyfreithlon<br>• I warchod eich buddiannau hanfodol (h.y. mewn argyfwng)<br>• Mae gennym eich caniatâd |
| **I gydymffurfio â rheolau iechyd a diogelwch** | |
| **I fonitro cyfleoedd cyfartal** | |
| **I ymgymryd ag archwiliadau** | |
| **I brosesu unrhyw gwynion y gallech eu gwneud** | |
| **I'ch gwarchod mewn argyfwng** | |
| **I ymchwilio a chynllunio yn Novus Cambria a'r Grŵp LTE** | |

## Oes angen eich caniatâd arnom?

Fel arfer ni fyddwn yn prosesu eich data personol yn seiliedig ar ganiatâd (gan ein bod gan amlaf yn dibynnu ar sail gyfreithiol arall). Os byddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn amodol ar eich caniatâd byddwn yn eich hysbysu o hynny cyn i ni ddechrau ar y gwaith prosesu. Mae gennych hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg.

## 6. Os nad ydych yn darparu gwybodaeth

Os nad ydych chi'n darparu gwybodaeth bersonol, efallai na allwn eich galluogi chi i ddefnyddio ein gwasanaethau, neu efallai y byddwn yn cael ein hatal rhag cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol neu dan gontract.

## 7. Gwneud penderfyniadau Awtomatig

Mae gwneud penderfyniadau awtomatig yn digwydd pan fo system electronig yn defnyddio gwybodaeth bersonol i wneud penderfyniad heb ymyrraeth ddynol. Nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw benderfyniadau amdanoch fel hyn. Byddwn yn rhoi gwybod i chi'n ysgrifenedig os yw hyn yn newid.

## 8. Rhannu Data

Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gyda thrydydd parti, fel y gweithredwr gwarchodol, sefydliadau dyfarnu, cyflogwyr a rhieni/gwarcheidwaid unigolion sy'n 18 oed neu iau ac/neu unrhyw ddarparwyr dysgu/addysg eraill. Mae rhestr lawn o bwy rydym yn rhannu eich data personol â nhw a pham, ar gael ar gais gan y DPO. Efallai bydd rhaid i ni ddatgelu eich gwybodaeth bersonol yn ôl y gyfraith, neu i gydymffurfio â'r gyfraith, os bydd Awdurdod yn gofyn i ni wneud hynny.

Mae gofyn i bob trydydd parti ddilyn mesurau diogelwch priodol i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol. Rydym yn caniatáu iddynt brosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion penodol yn unig. Rhaid iddynt wneud hyn yn unol â'n cyfarwyddiadau.

## 9. Diogelwch data

Mae mesurau yn eu lle i helpu diogelu eich gwybodaeth ac rydym yn cyfyngu ar y mynediad i'r wybodaeth hon er mwyn sicrhau mai dim ond partïon awdurdodedig gyda gofyniad cyfreithlon sy'n gallu cael mynediad at eich gwybodaeth.
Bydd eich data yn cael ei storio yn y DU yn unig.

Mae gennym weithdrefnau i ymdrin ag unrhyw dor diogelwch tybiedig. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am doriadau tybiedig pan fydd gofyniad cyfreithiol arnom i ni wneud hynny.

## 10. Am ba mor hir y byddwch yn defnyddio fy ngwybodaeth?

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol cyhyd ag y bo angen. Mae gennym **Amserlen Cadw Data** sy'n amlinellu pa mor hir rydym yn cadw gwybodaeth. Mae hon ar gael ar gais drwy gysylltu â'n DPO, gan ddefnyddio'r manylion yn Adran 2.

## 11. Eich hawliau unigol sy'n gysylltiedig â gwybodaeth bersonol

O dan amgylchiadau penodol, yn ôl y gyfraith, mae gennych hawl i wneud cais:

- **Mynediad** at eich gwybodaeth bersonol
- **Cywiro'r** wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch os yw'n anghywir. **Dileu** eich gwybodaeth bersonol.

Dim ond mewn amgylchiadau penodol y gallwch wneud hyn

- **Cyfyngiad** ar brosesu eich gwybodaeth bersonol
- **Trosglwyddo** eich gwybodaeth bersonol i barti arall
- **Gwrthwynebu** prosesu eich gwybodaeth bersonol
- **Gwahardd** prosesu eich gwybodaeth bersonol

Os ydych chi'n dymuno gwneud unrhyw geisiadau ynglŷn â'ch data personol, siaradwch ag unrhyw aelod o staff Novus Cambria, neu cysylltwch â'r DPO, gan ddefnyddio'r data yn adran 2. Os ydych chi'n gwneud cais, efallai byddwn ni angen gwybodaeth benodol gennych chi, neu eich cynrychiolydd, i gadarnhau eich hunaniaeth.

## 12. Os nad ydych chi'n hapus gyda'r ffordd rydym wedi ymdrin â'ch data

Os nad ydych chi'n hapus gyda'r ffordd rydym wedi ymdrin â'ch data, mae gennych chi'r hawl i wneud cwyn ffurfiol gyda'r adran ganlynol:

| | |
|---|---|
| **Ysgrifennydd y Cwmni a'r Cwnsler Cyffredinol**<br>Grŵp LTE<br>Whitworth House<br>Ashton Old Road<br>Manceinion<br>M11 2WH<br><br>dpo@ltegroup.co.uk | Os nad ydych chi'n dymuno trafod hyn gyda ni, neu os nad ydych chi'n hapus gyda'n hymateb, mae gennych chi'r hawl hefyd i wneud cwyn gyda'r awdurdod goruchwylio sef Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:<br><br>**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru**<br>2il Lawr,<br>Churchill House<br>Ffordd Churchill<br>Caerdydd CF10 2HH<br><br>0330 414 6421<br>https://ico.org.uk/about-the-ico/who-we-are/wales-office/<br><br>Gall eich cynrychiolydd hefyd gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar yr e-bost canlynol: wales@ico.org.uk |